



Gwasanaeth Cyngori ar Gynlluniau Datblygu: pynciau ymgynghori

Am beth mae'r ddogfen hon?

Mae'r ddogfen hon yn rhestr o bynciau ymgynghori er mwyn helpu ein staff i nodi materion i wneud sylwadau arnynt mewn ymateb i ymgynghoriadau cynllunio. Nid yw'r rhestr yn gyflawn ac nid yw'n cymryd lle unrhyw ddyletswydd deddfwriaethol, gyfreithiol neu arall y gellir eu gosod.

Byddwn yn adolygu'r rhestr yn rheolaidd, er enghraifft, er mwyn ystyried newidiadau mewn deddfwriaeth, cyfraith achosion, adborth o awdurdodau cynllunio lleol a datblygwyr a'n profiad o'i effeithiolrwydd.

Ar gyfer pwy mae'r ddogfen hon?

Bwriedir i'r ddogfen hon gael ei defnyddio gan Dimau Gwasanaeth Cyngori ar Gynlluniau Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a staff sy'n ymwneud â chynlluniau datblygu a rheoli

Mae hefyd yn ddefnyddiol ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol a datblygwyr.

Cyswllt ar gyfer cwestiynau ac adborth

Y Tîm Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu.

EPP.Planning@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

EPP.Planning@naturalresourceswales.gov.uk

Hanes fersiynau

Fersiwn o'r ddogfen	Dyddiad Cyhoeddi	Crynodeb o'r Newidiadau
2.0	Medi 2018	Diweddariad o 'Restr wirio ymgynghoriad' 2015
Dyddiad Adolygu: Medi 2019		

Pynciau ymgynghori cynlluniau datblygu

1	O fewn neu'n debygol o effeithio ar safleoedd Ewropeaidd: Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) (dynodedig ac ymgeisydd), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) (dosbarthiadol ac arfaethedig) a safleoedd Ramsar (dynodedig ac arfaethedig)
2	O fewn neu'n debygol o effeithio ar safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig; neu sydd o fewn ardal ymgynghori o amgylch Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) yr hysbyswyd yr awdurdod cynllunio lleol ohoni gan Cyfoeth Naturiol Cymru.
3	O fewn neu'n debygol o effeithio ar warchodfeydd natur cenedlaethol (GNC) a pharthau cadwraeth morol (PCM)
4	Yn debygol o effeithio ar rywogaeth a warchodir gan Ewrop, pan fo'r angen am arolwg wedi'i nodi, y mae arolwg wedi'i gynnal ac mae angen cyngor pellach ar awdurdod cynllunio lleol
5	Yn debygol o effeithio ar rywogaethau a warchodir yn llawn yn genedlaethol o dan y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad, pan fo'r angen am arolwg wedi'i nodi, y mae arolwg wedi'i gynnal ac mae angen cyngor pellach ar awdurdod cynllunio lleol
6	Yn debygol o effeithio ar ddibenion Parciau Cenedlaethol neu Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol
7	Yn debygol o effeithio ar gyrsiau dŵr, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> a) cynnal unrhyw weithrediadau gwaith i wely neu lannau ar gyfer cwrs dŵr, er enghraifft, cwrs dŵr cyffredin neu brif afon. Mae hyn yn cynnwys gollwng i gyrsiau dŵr o'r fath b) datblygu ar, neu o fewn wyth metr i, waelod ochr y tir o unrhyw arglawdd neu wal sy'n amddiffyn rhag llifogydd, neu le nad oes unrhyw arglawdd neu wal, o fewn wyth metr i frig glan afon. c) datblygu ar, neu o fewn 16 metr i, waelod ochr y tir o unrhyw arglawdd neu wal sy'n amddiffyn rhag y môr. d) sianelu neu reoli llif unrhyw gwrs dŵr, gan gynnwys unrhyw strwythur rheoli llif arall
8	Yn ymwneud â defnydd tir fel mynwent, yn cynnwys estyniadau
9	Ar gyfer cyfleusterau anifeiliaid dwys gan gynnwys ffermio pysgod, pysgodfeydd, dofednod a moch
10	Wedi'i leoli o fewn Parth C o'r mapiau cyngor datblygu a gynhwysir o fewn TAN15 a/neu barthau 2 neu 3 Mapiau Parthau Llifogydd CNC, ar wahân i geisiadau cartref.

Pynciau ymgynghori cynlluniau datblygu

11	Yn ymwneud â gwaith paratoi'r pridd a/neu system gwaredu carthion heb brif gyflenwad neu waredu dŵr wyneb o fewn Ardal Diogelu Tarddiad Dŵr, a datblygu amaethyddol mewn Parth Perygl Nitradau.
12	Ar gyfer sefydliadau newydd; neu addasiadau ar gyfer sefydliadau sy'n bodoli eisoes a allai gael effaith sylweddol ar beryglon damweiniau mawr; neu o fewn 250 o fetrau, lle mae lleoliad y datblygiad yn ddigon i gynyddu perygl canlyniad y ddamwain fawr
13	Ar dir a allai fod yn halogedig, a allai lygru dŵr o dan reolaeth
14	Yn ymwneud â chyfleuster rheoli gwastraff lle mae Asesiad Cylch Bywyd wedi'i baratoi.
15	Unrhyw ddatblygiad a wnelo â gwaith paratoi'r pridd sydd ar, neu o fewn 250 o fetrau, i safle tirlenwi hanesyddol, wedi'i gau neu sy'n weithredol.
16	Yn ymwneud â, neu'n cynnwys gweithrediadau mwyngloddio
17	At ddiben mireinio neu storio olewau mwynau a'u deilliadau
18	Yn ymwneud â chadw, trin neu waredu carthion, gwastraff masnachu, slyri neu slwtsh (ar wahân i osod carthffosydd, adeiladu adeilad pwmpio sydd o fewn rhes o garthffosydd, adeiladu tanciau carthion a charthbyllau sy'n gwasanaethu tai annedd unigol neu garafanau unigol neu adeiladau unigol lle nad oes mwy na deg o bobl yn byw, gweithio, neu'n ymgasglu ynddynt fel arfer, a gwaith sy'n ategol iddynt)